Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint 09

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion - 8 Gorffennaf 2025**

**Gwarchodfa Natur Rhydymwyn**

---

**Aelodau -** Alan Neale, John Holiday, Jeff Shone, Shirley Fermor.

**Arsylwyr -** Ian Hughes.

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Adrian Hibbert, Suzanne Williams, Jon Hill, Stuart Jones.

**Ymddiheuriadau -** Jonathan Hulson, y Cynghorydd Dave Evans, Julian Pellett, Marjorie Thomson, Hannah Arndt.

## 1/ Croeso -

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cytunodd yr aelodau y byddai'r Ysgrifennydd - TW, yn cadeirio'r cyfarfod.
Croesawodd TW bawb i 9fed cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

Croesawodd TW y siaradwr gwadd Richard Sumner, Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddodd TW fod Jonathan Hulson wedi penderfynu ymddiswyddo o'r fforwm. Gan fod cyfnod 3 blynedd y fforwm presennol ar fin dod i ben yn Ionawr 2026, ni fydd Sir y Fflint, fel y corff penodi, yn chwilio am aelodau newydd ar y cam hwn, ond yn hytrach bydd yn cyflawni proses recriwtio llawn yn y flwyddyn newydd ar gyfer y cyfnod tair blynedd newydd.

## 2/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 7 Ebrill fel yr oeddent wedi'u hysgrifennu.

**a.** Materion yn Codi

Hoffai JH wybod beth sy'n digwydd gyda'r rhwystrau yn noc Maes Glas. Roedd TW wedi anfon e-bost yn ymateb, i gadarnhau bod y rhwystrau mynediad ffrâm A yn y broses o gael eu tynnu ac nid oedd y blociau concrid yn rhwystro hawl tramwy, ond yn cael eu defnyddio i wahanu'r gweithrediadau casglu cocos masnachol rhag y cyhoedd.

**Adroddiad Blynyddol -** Amlygodd TW yr Adroddiad Blynyddol (yn ôl yr e-bost) a gofynnodd i’r aelodau ei gymeradwyo.

Gofynnodd JS a fyddai’r Adroddiad Blynyddol yn cael ei wneud yn gyhoeddus.

Cadarnhaodd TW unwaith y byddai’n cael ei gymeradwyo, byddai’n cael ei anfon at CNC, ei gyfieithu ac yna’i lwytho ar wefan Sir y Fflint.

Croesawodd yr aelodau’r adroddiad gan ddiolch i’r tîm.

**Diweddariad Hynet -** Rhoddodd SJ ddiweddariad i’r aelodau ar y prosiect, ac yn benodol y gwaith yn y Parlwr Du.

Gofynnodd JH a oeddent yn parhau i fod yn bell i ffwrdd.

Dywedodd SJ eu bod yn edrych ar 2026/2027 cynnar.

**Fforwm Cenedlaethol** - Amlygodd TW y Fforwm Mynediad Cenedlaethol a’i gyfarfod diwethaf. Mae Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Ysgrifenyddion Fforymau Mynediad Lleol wedi’i gwahodd fel arsylwyr ac roedd JP wedi mynychu yn y gorffennol.

**Prosiect Map Digidol** - Dangosodd SJ fap gan Fap Data Cymru gyda 2000 o haenau. Mae gan holl sectorau cyhoeddus yng Nghymru fynediad ato a gall fod ar gael i holl aelodau’r cyhoedd yn y dyfodol.

Gofynnodd JS pwy oedd yn gyfrifol amdano - Llywodraeth Cymru

Gofynnodd TW a oedd unrhyw fuddion posibl i ni. Dywedodd SJ ei fod yn credu y bydd gan y cyhoedd ddiddordeb ynddo. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod eisiau hyn erioed, ond rhaid i bawb gael mynediad ato.

Dywedodd SF y byddai’n waith ei gadw’n gyfredol. Dywedodd SJ y dylai gael ei ddiweddaru’n hawdd.

Gofynnodd IH a oeddent wedi gofyn i gael diweddaru unrhyw newidiadau. Atebodd SJ na, gan ei fod yn newydd ac mae llawer o waith angen ei wneud eto.

Dywedodd RS fod CNC yn defnyddio map data a'i fod yn gweithio’n well pan mae prosiect mewn golwg.

**3/ Cynigion ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd.**

Rhoddodd RS gyflwyniad i ddiweddaru'r fforwm.

Gofynnodd JH a fyddai chwareli yn gallu dod yn ôl i ddefnydd o fewn parc cenedlaethol newydd.

Dywedodd RS na allai wneud sylw ar achosion penodol ond bod y Parc Cenedlaethol ar gyfer defnydd hamdden awyr agored tawel.

Dywedodd SF bod angen i bobl ifanc gael eu haddysgu. Dywedodd JH fod diffyg parch tuag at ofod awyr agored. Dywedodd DC bod problemau sbwriel amlwg ers covid gyda phobl ifanc yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin.

Dywedodd RS bydd y bwrdd yn gwneud penderfyniad yn yr wythnos nesaf. Byddwn yn rhannu'n gyhoeddus sut fydd yr ardal yn edrych.

Amlygodd JH nad oedd CSFf yn cefnogi'r Parc Cenedlaethol.

Eglurodd TW nad oedd gan CSFf ddigon o wybodaeth o ran llywodraethu, cynllunio ac ariannu er mwyn gallu cadarnhau ei gefnogaeth ar y cam ymgynghori diwethaf. Ychwanegodd TW fod CNC wedi cyflawni mwy o waith mewn perthynas â'r pwyntiau hyn.

Dywedodd RS na ddylid colli dim cyllid presennol.

Dywedodd TW mai'r cam nesaf fydd i Fwrdd CNC ystyried yr holl dystiolaeth ac argymell ffordd ymlaen, mae'r cyfarfod hwn yn digwydd yr wythnos nesaf. Ychwanegodd RS fod nifer o ddewisiadau.

Gofynnodd AH a fyddai Sir y Fflint yn cael ei effeithiol gan yr estyniad arfaethedig.

Dywedodd TW bod Sir y Fflint yn cael ei effeithio gan fod y ffin yn dod i mewn i Sir y Fflint, roedd y ffin arfaethedig flaenorol a ymgynghorwyd arni yn canolbwyntio ar ffin y Dirwedd Genedlaethol bresennol. Nid yw'n hysbys eto sut fydd y ffin derfynol yn edrych.

**4/ Diweddariad ar eitemau blaenorol ar raglen y Fforwm Mynediad Lleol**

Cydgrynhoi Map Diffiniol - Dywedodd TW nad oes gofyniad i ymgynghori'r ffurfiol, ond rydym am gael diwrnod ym Mharc Gwepra ar 10 Medi a diwrnod pwrpasol arall gyda'r Cerddwyr.

**Cam Gweithredu** – Y swyddogion i ymgysylltu â'r aelodau drwy gydol y broses.

**5/ Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Mynediad**

Rhoddodd SJ gyflwyniad byr a gaiff ei anfon gyda'r cofnodion sy'n dangos trosolwg o'r gwasanaeth.

Dywedodd IH ei bod yn braf gweld bod gwaith cyffredinol yn parhau gyda'r prosiect mawr yn digwydd ar hyn o bryd, megis y prosiect Hynet.

**6/ Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd TW y byddai eitemau ar gyfer y rhaglen nesaf yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen. Roedd y tîm yn olrhain y cais i gynrychiolydd o'r Gwasanaethau Stryd i fynychu cyfarfod i wneud cyflwyniad ar feicio a Theithio Llesol.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 11:30am a chafodd yr aelodau gerdded o amgylch Rhydymwyn.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar - 13 Hydref 2025
19 Ionawr 2026